# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 2

PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL

## PENNOD 1

Y PŴER CYFFREDINOL

### 26 Cyfyngiadau ar godi ffi wrth arfer y pŵer cyffredinol

(1) Nid yw'r pŵer cyffredinol yn rhoi pŵer i awdurdod lleol cymhwysol godi ffi am ddarparu gwasanaeth i berson oni fo'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni.

(2) Yr amod cyntaf yw nad yw'r gwasanaeth yn un y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ei ddarparu i'r person.

(3) Yr ail amod yw bod y person wedi cytuno i'r gwasanaeth gael ei ddarparu.

(4) Ac eithrio mewn perthynas â gwasanaeth a ddarperir at ddiben masnachol, i'r graddau y bo'r pŵer cyffredinol yn rhoi pŵer i awdurdod lleol cymhwysol godi ffi am ddarparu gwasanaeth, mae'r pŵer yn ddarostyngedig i ddyletswydd i sicrhau nad yw'r incwm o ffioedd a osodir oddi tano, o gymryd un flwyddyn ariannol gyda'r llall, yn fwy na chost darparu'r gwasanaeth.

(5) Mae'r ddyletswydd o dan is-adran (4) yn gymwys ar wahân mewn perthynas â phob math o wasanaeth.

(6) Yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan is-adran (4), wrth arfer y pŵer a roddir gan y pŵer cyffredinol i godi ffi am ddarparu gwasanaeth, caiff awdurdod lleol cymhwysol bennu ei ffioedd fel y mae'n ystyried bod hynny'n briodol, ac ymysg pethau eraill caiff—

(a) codi ffi ar rai personau yn unig am ddarparu gwasanaeth;

(b) codi symiau gwahanol o ffi ar bersonau gwahanol, neu bersonau o ddisgrifiadau gwahanol, am ddarparu gwasanaeth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 26 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**I2** A. 26 mewn grym ar 1.11.2021 gan O.S. 2021/231, **ergl. 4(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 26.